Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Nyrs Ymchwil Glinigol**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Y Coleg Meddygaeth |
| **Teitl y Swydd:** | Nyrs Ymchwil Glinigol |
| **Adran/Pwnc:** | Cyfleuster Ymchwil Clinigol ar y Cyd |
| **Cyflog:** | Gradd 08 £39,355 – £45,413 y flwyddyn (pro rata) ynghyd â buddion pensiwn Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) |
| **Oriau gwaith:** | Mae gennym 2 swydd, 1 x 28 awr yr wythnos ac 1 x 21 awr yr wythnos. |
| **Contract:** | Parhaol |
| **Lleoliad:** | Campws Singleton ac Ysbyty Treforys |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Cydlynu'r gwaith o ofalu am eich llwyth gwaith eich hun o ran cleifion treialon clinigol<br>2. Sicrhau gweinyddu'n ddiogel feddyginiaethau heb drwydded a meddyginiaethau wedi'u trwyddedu sy'n cael eu rhoi yng nghyd-destun y treial clinigol.<br>3. Glynu wrth y protocol, gan sicrhau bod holl dasgau penodol y treial – gan gynnwys tynnu samplau gwaed neu samplau eraill – yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlenni angenrheidiol, ynghyd â sicrhau bod y claf yn gymwys ac yn ddiogel.<br>4. Darparu cymorth a gwybodaeth barhaus i'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr ynghylch treialon clinigol.<br>5. Cadw data cywir a chryno.<br>6. Cynnal cofrestr o ddigwyddiadau niweidiol ac adrodd amdanynt i'r corff rheoleiddio a'r noddwr mewn modd amserol. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 7. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>8. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>9. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>10. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>11. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â chyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd:Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>Yn ogystal, byddwch chi'n gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Arweinyddiaeth:<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn datblygu'n bersonol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys pobl wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi arloesedd a newid, gan wella'r Brifysgol, a pherfformiad timoedd ac unigolion.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timoedd i weithio ar y cyd ac ar draws swyddogaethau i ragori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym yn gyfrifol am greu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, gan gyfleu'r "darlun mawr" a manteisio ar syniadau a chyfleoedd i wireddu gweledigaeth y Brifysgol.<br><br>**Rydym yn ofalgar** |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn creu amgylchiadau sy’n nodi, yn deall ac yn rhoi blaenoriaeth i anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a’r cyhoedd). Rydym yn ysgogi ac yn ysbrydoli ein timoedd i ddarparu’r safonau uchaf o ofal personol ac, wrth wneud hynny, rydym yn cynnal brand Prifysgol Abertawe. |
| **Manyleb Person** | **<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>**<br><br>1. Rhaid i ymgeiswyr fod â gradd a bod yn Nyrs Gofrestredig â phrofiad ôl-gymhwyso.<br>2. Hyfforddiant cydnabyddedig o ran Arfer Clinigol Da yr ICH<br>3. Sgiliau uwch mewn dulliau ymchwil glinigol<br>4. Sgiliau TGCh sy'n addas at ofynion y rôl<br>5. Profiad o weithio mewn amgylchedd clinigol neu ymchwil.<br>6. Profiad o reoli neu gydlynu data neu wybodaeth er mwyn hwyluso gweithgarwch ymchwil, neu'r gallu i gymhwyso gwybodaeth benodol i gyfrannu at un neu fwy o brosiectau ymchwil, neu'r gallu i gynnal profiadau/arferion mewn maes gwaith arbenigol.<br>7. Profiad o reoli prosiectau.<br>8. Y gallu i arfarnu protocolau yn feirniadol.<br>9. Cyfranogi yn y broses gydsynio gwybodus o fewn cwmpas ymarfer proffesiynol.<br>10. Gwybodaeth am ymchwil a'r broses foesegol sy'n cwmpasu ICH/GCP<br>11. Cynnal datblygiad proffesiynol a bod yn ymwybodol o faterion cyfredol ym maes nyrsio.<br>12. Sgiliau cyfathrebu ardderchog â meddygon a'r cyhoedd cyffredinol.<br>13. Gallu i weithio mewn tîm amlddisgyblaethol.<br>14. Y gallu i weithio i lefel uchel o gywirdeb.<br>15. Bod yn gyfrifol am reoli a datblygu nyrsys ymchwil yr Uned Ymchwil Glinigol drwy ddangos sgiliau arweinyddiaeth cadarnhaol.<br><br>**Gwerthoedd Arweinyddiaeth:**<br>16. Tystiolaeth o greu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan ddatblygu a herio timoedd i lwyddo, ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol.<br>17. Gallu i alluogi timau i weithio gyda'i gilydd ac ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid, a chreu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her.<br>18. Tystiolaeth o brofiad o greu amgylcheddau sy’n nodi ac yn deall anghenion y cwsmer, ac sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiwallu'r anghenion hynny, ynghyd ag ysgogi ac ysbrydoli timau i ddarparu’r safonau uchaf o ofal personol.<br><br>**Cymwysterau**<br>19. Rhaid i ymgeiswyr fod â gradd a bod yn Nyrs Gofrestredig â phrofiad ôl-gymhwyso.<br>20. Hyfforddiant cydnabyddedig o ran Arfer Clinigol Da yr ICH<br><br>**Profiad**<br>21. Profiad o weithio mewn amgylchedd clinigol neu ymchwil.<br>22. Profiad o reoli neu gydlynu data neu wybodaeth er mwyn hwyluso gweithgarwch ymchwil, neu'r gallu i gymhwyso gwybodaeth benodol i gyfrannu at un neu fwy o brosiectau ymchwil, neu'r gallu i gynnal profiadau/arferion mewn maes gwaith arbenigol.<br>23. Profiad o reoli prosiectau.<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau**<br>24. Sgiliau uwch mewn dulliau ymchwil glinigol |

| | |
|---|---|
| | 25. Sgiliau TGCh sy'n addas at ofynion y rôl<br>26. Gwybodaeth am ymchwil a'r broses foesegol sy'n cwmpasu ICH/GCP<br>27. Sgiliau cyfathrebu ardderchog â meddygon a'r cyhoedd cyffredinol<br>28. Meddu ar hyfedredd mewn fflebotomi, casglu samplau eraill a sicrhau bod samplau biolegol cleifion yn cael eu trin, eu storio a'u cludo'n ddiogel.<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br>29. Diploma ôl-raddedig neu gymhwyster cyfwerth mewn ymchwil glinigol.<br>30. Profiad o lunio gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer protocolau ymchwil glinigol.<br>31. Y gallu i werthuso arwyddocâd ymchwil.<br>32. Profiad o gydlynu llwybrau gofal i gleifion sy'n cymryd rhan mewn ymchwil glinigol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Lucy Barlow lucy.barlow@wales.nhs.uk<br><br>**Bydd angen darparu tystysgrif foddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau** |